Hawdd ei Ddeall



# Cynllun ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

## Beth fyddwn ni'n wneud yn 2025 i 2029

Cafodd ei ysgrifennu gan **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro – Cynllun Partneriaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol 2025-2029**'.

**Mawrth 2025**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Mae'r llyfryn yma'n hawdd ei ddeall. Efallai y bydd arnoch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn print **glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 43**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** parkplan@pembrokeshirecoast.org.uk

**Ffôn:** 01646 624800

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen yma'n Hawdd ei Deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen hawdd ei deall yma, cliciwch yn y fan yma.

Rhif Trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Ynglŷn â'r cynllun hwn** ........ **4**

**Y gorffennol** ........ **7**

**Beth rydyn ni ei eisiau** ........ **8**

Lle i fyw a gweithio ynddo ........ 9

Y pethau mae'r Parc Cenedlaethol yn eu cynnig ........ 11

Pethau sy'n effeithio ar y Parc ........ 13

**Ein nodau** ........ **22**

**Beth sy'n digwydd nesaf** ........ **28**

**Geiriau anodd** ........ **30**

# Ynglŷn â'r cynllun hwn

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ydyn ni.




Mae **Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** yng Nghorllewin Cymru. Mae'n ardal o harddwch naturiol a llawer o fywyd gwyllt.




Mae 21 mil o bobl yn byw yno.




Rydyn ni'n penderfynu ar y rheolau cynllunio ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol.




Gwnaethon ni gynllun ynglŷn â'r Parc Cenedlaethol wnaeth bara o 2020 i 2024.




Mae'r llyfryn yma ynglŷn â'r cynllun newydd ar gyfer 2025 i 2029.




Fe wnaethon ni gynnal arolwg yn gofyn beth rydych chi'n ei feddwl am y cynllun yma.




Os ydych chi wedi llenwi'r arolwg, diolch. Mae eich syniadau wedi ein helpu i wneud y cynllun terfynol.

**Mae pedwar prif syniad y mae'n rhaid cyrraedd nod ar eu cyfer:**



1. **Cadwraeth**. Gofalu am y tir a'r bywyd gwyllt.



2. **Cysylltiad**. Helpu pobl i deimlo'n rhan o natur a hanes yr ardal.



3. **Hinsawdd a chyfoeth naturiol**. Gofalu am yr amgylchedd a'i gadw'n ddiogel ar gyfer y dyfodol.



4. **Cymunedau**. Gofalu am y bobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol.




Mae'r syniadau hyn wedi'u cysylltu â deddfau a pholisïau yng Nghymru.

# Y gorffennol



Amser maith yn ôl, roedd y môr yn gorchuddio'r tir ar Arfordir Sir Benfro. Roedd llosgfynyddoedd a mynyddoedd mawr yno.



Yn ddiweddarach, fe wnaeth pobl adeiladu pethau fel caerau a chestyll. Roedden nhw hefyd yn masnachu gyda lleoedd eraill.



Yn fwy diweddar, daeth yr ardal yn bwysig i fusnes, natur ac ymwelwyr. Fe gafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu.

# Beth rydyn ni ei eisiau



**Rydyn ni eisiau cadw'r parc yn dda i'r amgylchedd ac yn bleserus i bawb sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld yma.**



Mae gan y parc lawer o leoedd hardd, fel bryniau, traethau a choedwigoedd. Mae'r lleoedd yma yn dweud pethau wrthyn ni am natur a hanes.



Rydyn ni eisiau diogelu bywyd gwyllt, yr amgylchedd a diwylliant. A chaniatáu i bawb fwynhau a dysgu am y tir.



Rydyn ni eisiau cadw natur yn iach. Gydag aer glân, pridd da, a llawer o anifeiliaid a phlanhigion.



Mae'n bwysig bod pawb yn gallu ymweld â'r parc, ei fwynhau, a helpu i ofalu amdano. Fel bod y parc yn gallu bod yn lle sy'n gweithio i bobl a natur.



Rydyn ni'n gofalu am yr ardal, a chadw'r harddwch naturiol a'r bywyd gwyllt yn  ddiogel.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr y gall pobl fwynhau'r Parc a bod y cymunedau lleol yn cael budd ohono.



Mae grwpiau eraill, fel Llywodraeth Cymru a busnesau Lleol, yn helpu i ofalu am y Parc.



Mae'n bwysig ein bod i gyd yn gweithio i ofalu am y Parc mewn ffordd dda.



Gallwn ddefnyddio’r Parciau mewn ffordd sydd o fudd i’r cymunedau lleol. Mae’n rhaid i ni wneud hynny mewn ffordd sy’n gofalu am y Parc.



Mae’r Parc yn cael ei ddefnyddio i dyfu bwyd a gwneud trydan a gwres.



Mae’r rhan fwyaf o’r Parc Cenedlaethol yn breifat. Mae mudiadau yn gofalu am beth ohono ar gyfer natur a hanes.



# Y pethau mae'r Parc Cenedlaethol yn eu cynnig



Mae'n bwysig bod pobl yn cael cyfleoedd  i fwynhau'r Parc.



Gofynnon ni i bobl am eu hoff leoedd yn y Parc a sut y gallwn ni amddiffyn y lleoedd hyn. Rhoddodd pobl lawer o atebion.



Siaradodd llawer o bobl am yr arfordir, y traethau, bywyd gwyllt, y golygfeydd, hanes a'r gymuned.



Mae pobl yn hoffi'r cymysgedd o Gymraeg a Saesneg. Mae'r ieithoedd yn dangos y gwahanol bobl sy'n byw yma.



Cerdded ydy'r peth mwyaf poblogaidd i'w wneud yn y Parc, ond mae llawer o bethau eraill i'w gwneud.



Mae gan y Parc lawer o ddewisiadau. Mae yna lefydd ar gyfer heddwch a thawelwch. A llefydd i glywed synau'r cefn gwlad.



Mae mannau ar gyfer **treftadaeth** a **diwylliant**. Mae hyn yn meddwl pethau fel cestyll, hanes, a phethau sy'n ymwneud â bywyd Cymreig.






Mae rhai problemau yn y Parc. Mae tri pheth mawr sy'n gallu effeithio ar y Parc:



- **Y ffordd mae'r tir yn cael ei drin**. Mae hyn yn effeithio ar y bywyd gwyllt a'r amgylchedd.



- **Datblygiad**. Dylai adeiladu a newidiadau amddiffyn a gwella'r ardal.



- **Newid hinsawdd**. Mae hyn yn newid mawr yn y tywydd. Er enghraifft, mae lleoedd yn mynd yn gynhesach, yn wlypach, neu'n sychach. Mae'r newidiadau hyn yn gwneud i stormydd fynd yn waeth, ac yn achosi llifogydd a thannau gwyllt. Gall hyn niweidio'r Parc Cenedlaethol.



Dros y 30 mlynedd diwethaf mae llai o dannau gwyllt wedi bod yng Nghymru. Mae llawer o ardaloedd naturiol mewn cyflwr gwael.



Yn 2022 cafodd **Cynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig** ei chynnal.



Cytunodd y gwledydd oedd yn y gynhadledd i gadw a rheoli 30 y cant o wyneb y ddaear ar gyfer natur.



Mae hyn yn bwysig, ond mae'n rhaid gofalu'n dda am yr ardaloedd hyn.

## Dysgu



Dylai Parc Cenedlaethol helpu pobl i ddysgu am yr ardal a chymryd diddordeb ynddi.



Mae hyn yn helpu pobl i ofalu amdani ac mae'n dda ar gyfer iechyd a lles pobl.



Mae llawer o gyfleoedd i gerdded, dringo a gwneud chwaraeon dŵr yn y Parc Cenedlaethol.




Mae rhai pobl yn aflonyddu ar fywyd gwyllt a dydyn nhw ddim yn gofalu am yr ardal. Gallai mwy o bethau gael eu gwneud i rwystro hyn.



Mae mwy o bobl yn dysgu am yr amgylchedd a pha mor bwysig ydy e.



Ond nid ydy llawer o bobl yn gwybod digon i'w amddiffyn.



Mae arnon ni angen helpu mwy o bobl i ddysgu am y Parc a chymryd rhan.



Un enghraifft ydy tynnu mwy o bobl ifainc i mewn. Mae hyn yn dda ar gyfer eu hiechyd a'u lles. Mae'n gallu lleihau straen a gwella hwyl.




Rydyn ni a grwpiau eraill wedi gweithio gyda phlant ysgol gynradd. Mae wedi bod yn fwy anodd cynnwys ysgolion uwchradd.



Mae'n bwysig cynnwys pobl ifainc.

## Pam mae pobl yn ymweld



Mae'r arfordir yn rheswm mawr dros i bobl ymweld â'r ardal.



Mae llawer o ardaloedd y Parc Cenedlaethol yn rhydd o **lygredd golau**.

Mae **llygredd golau** yn olau cryf yn y ystod y nos sy'n dod o bethau fel lampau stryd.




Mae wyth **Safle Darganfod Awyr Dywyll** yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain yn lleoedd ble gallwch weld yr awyr a'r sêr yn y nos os nad oes cymylau.



## Newid Hinsawdd



Mae **newid hinsawdd** wedi cael effeithiau gwael ar natur a bywyd gwyllt.




Mae llawer o bethau y gallwn ni wneud i ddelio â **newid hinsawdd**. Gwnaeth **Pwyllgor Newid Hinsawdd** adroddiad a gafodd ei alw'n '**Adaptation and the Nature Emergency**'.



Un nod pwysig ydy cyrraedd **sero net**.

Mae **sero net** yn meddwl bod y maint o nwyon niweidiol rydyn ni'n ei roi yn yr aer yn cael ei gydbwyso gan faint rydyn ni'n eu tynnu allan.




Rydyn ni'n bwriadu bod yn **sero net** erbyn y flwyddyn 2050. Mae arnon ni hefyd eisiau haneru faint o nwyon niwediol rydyn ni'n eu cynhyrchu erbyn 2030.



Mae arnon ni angen cynllunio ar gyfer newidiadau a pheryglon i'r Parc, fel llifogydd. Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod sut y gallai hyn effeithio arnyn nhw.



Mae arnon ni angen meddwl beth fydd yn digwydd os bydd mwy o bobl yn dechrau ymweld â'r ardal a pha effeithiau y gallai hyn ei gael.



Pethau eraill allai effeithio ar yr ardal ydy hynny o arian sydd ar gael a'r swyddi y mae pobl yn eu gwneud.




Mae llawer o'r cartrefi preifat yn yr ardal yn ail gartrefi. Mae hyn yn gwneud i brisiau tai fynd yn uwch.



Mae'n bwysig cael digon o dai y gall pobl eu fforddio yn yr ardal.



Wrth feddwl am dwristiaid, mae'n rhaid i ni gofio bod gan ymwelwyr wahanol anghenion. Er engraifft, mae'n bwysig cynllunio ar gyfer ymwelwyr anabl.

## Trafnidiaeth



Mae’r rhan fwyaf o bobl yn sir Benfro yn defnyddio ceir. Dydy ceir ddim yn dda ar gyfer yr amgylchedd.



Does dim llawer o drafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal. Mae arnon ni angen meddwl am anghenion pobl ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, cael gwell llwybrau beicio a gwell cludiant cyhoeddus.

## Hanes a Mannau o Ddiddordeb Arbennig



Mae llawer o adeiladau, safleoedd, gerddi a lleoedd sy’n bwysig i’r ardal.



Gall y rhain i gyd fod mewn perygl o gael eu difrodi. Mae gwahanol grwpiau yn gofalu amdanyn nhw. Er enghraifft, mae Cadw yn gofalu am rai lleoedd ac adeiladau.

## Dŵr ac ansawdd yr aer



Mae’r dŵr o gwmpas yr ardal yn iawn, ond mae rhywfaint o lygredd.



Bob blwyddyn mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn gwneud profion ar ddŵr ymdrochi yn yr ardal. Fe roddon nhw radd i bob ardal. Y graddau oedd yn cael eu rhoi oedd da, da iawn neu ragorol.



Mae Cyngor Sir Sir Benfro yn gwneud profion ar ansawdd aer y Parc Cenedlaethol pob tair blynedd.



Mae mwy o gemegion yn yr aer. Mae’r rhain yn dod o ffermio a gyrru. Mae’r rhain yn gwneud ansawdd yr aer yn waeth.

# Ein nodau

## 1. Cadwraeth

**Y prif bethau mae arnon ni eisiau eu gwneud ydy:**



- **Cadw** y dirwedd a'r môr.

Mae **cadw** yn meddwl amddiffyn.



- Amddiffyn golygfeydd.



- Diogelu bywyd gwyllt a'r **ecosystem**.

Mae'r **ecosystem** yn meddwl natur a bywyd gwyllt yn gweithio gyda'i gilydd.



- Gofalu am rywogaethau sy'n bwysig yn Sir Benfro.



- Lleihau effeithiau **llygredd golau** ar fywyd gwyllt.



- Amddiffyn a gwella iechyd y pridd.



- Fe fyddwn ni'n ei gwneud hi'n haws i anifeiliaid symud o gwmpas y tir.



- Fe fyddwn ni'n diogelu safleoedd pwysig sy'n adrodd hanes y ddaear.

# 2. Cysylltiad

**Y prif bethau mae arnon ni eisiau eu gwneud ydy:**



- Amddiffyn a gwella ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol ac **Ardaloedd Cadwraeth**. Mae'r ardaloedd hyn yn bwysig i'r amgylchedd neu i hanes.




- Hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru.



- Helpu mwy o bobl ifanc i fwynhau'r Parc.



- Gwneud hi'n haws i fwy o bobl fwynhau bod yn yr awyr agored. Gan gynnwys pobl anabl a phobl o wahanol gefndiroedd.



- Cadw ansawdd y dŵr yn ardderchog ar draethau ymdrochi.

# 3. Hinsawdd a chyfoeth naturiol

**Y prif bethau mae arnon ni eisiau eu gwneud ydy:**




- Haneru faint o nwyon sy'n gwneud niwed sy'n cael eu cynhyrchu gennym erbyn 2030. Bod yn **sero net** erbyn 2050.




- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.



- Amddifyn a gwella iechyd y pridd.



- Lleihau llygredd oddi wrth gemegion.



- Gwella ansawdd dŵr ein afonydd, llynnoedd a'r môr.

# 4. Cymunedau

**Y prif bethau mae arnon ni eisiau eu gwneud ydy:**



- Darparu dewis o gartrefi i gefnogi cymunedau lleol.




- Rhoi dewis o gyfleoedd i gael swyddi.



- Gwneud prosiectau i helpu pobl sydd â llai o arian neu lai o gyfleoedd. Plant a theuluoedd yn bennaf.



- Prynu pethau mewn ffordd sy'n helpu busnesau lleol.



- Gwella trafnidiaeth a dewisiadau teithio.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau cymuned leol.



# Beth sy'n digwydd nesaf



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i wneud i'r cynllun yma ddigwydd. Fe fyddwn ni hefyd yn edrych i weld pa mor dda mae'n gweithio.




Fe fyddwn ni'n rhannu adroddiadau ar sut mae'r cynllun yn gweithio. Fe fydd yr adroddiadau yn dangos beth sydd wedi mynd yn dda a beth rydyn ni wedi'i ddysgu.



Fe fyddwn ni'n gofyn i bartneriaid ddefnyddio'r cynllun yma ar gyfer eu cynlluniau eu hunain. Ac i rannu beth maen nhw wedi'i wneud.

Os ydych chi eisiau siarad am y cynllun yma, cysylltwch â ni:



**Post:**
Tîm Polisi Strategol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Llanion
Doc Penfro
SA72 6DY



**E-bost**: parkplan@pembrokeshirecoast.org.uk



**Ffôn**: 01646 624800

# Geiriau anodd

## Cadw

Mae hyn yn meddwl amddiffyn.

## Ecosystem

Mae ecosystem yn meddwl natur a bywyd gwyllt yn gweithio gyda'i gilydd.

## Llygredd golau

Mae llygredd golau yn olau cryf yn y ystod y nos sy'n dod o bethau fel lampau stryd.

## Sero net

Mae sero net yn meddwl bod y maint o nwyon niweidiol rydyn ni'n ei roi yn yr aer yn cael ei gydbwyso gan faint rydyn ni'n ei dynnu allan.